



**PANEL HEDDLU A  
THROSEDDU DYFED-POWYS**

**DYFED-POWYS POLICE  
AND CRIME PANEL**

**Cyng. Alun Lloyd-Jones Cadefrydd**  
**Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**  
**D/O Adran y Prif Weithredwr**  
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 1JP.**

**Cllr. Alun Lloyd-Jones Chair**  
**Dyfed Powys Police and Crime Panel**  
**C/O Chief Executive's Department**  
**County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 1JP**

---

Dyddiad / Date: 25/01/19

Mr Dafydd Llywelyn,  
Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu  
Pencadlys yr Heddlu,  
Llangynnwr,  
Caerfyrddin.

Annwyl Mr Llywelyn,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2019 pryd yr ystyriwyd eich cynigion ar gyfer praesept yr heddlu 2019-2020.

Ar fy rhan fy hun a'm cyd-aelodau o'r panel, hoffwn ddiolch i chi a'ch staff am yr adroddiad cynhwysfawr a oedd yn cyflwyno eich rhesymu dros y cynnydd yn y praesept y gofynnwyd amdano.

Fel y dywedwyd sawl gwaith yn ystod y cyfarfod hwnnw, oherwydd polisïau'r llywodraeth ganolog, roeddech yn wynebu dewis anodd rhwng naill ai gynyddu'r praesept yn sylweddol neu leihau'n sylweddol nifer y swyddogion mewn lifrai a leolir gan y llu.

O ystyried y dewis hwnnw roeddech yn teimlo mai'r cynnig i gynyddu'r praesept oedd y cam gweithredu mwyaf priodol.

Fel y gwyddoch, pleidleisiodd y panel gyda mwyafrif o 9-1 i gymeradwyo eich praesept arfaethedig. Mae'r panel felly'n argymhell yn ffurfiol i chi ei fod yn cael ei roi ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Yn gywir

  
Alun Lloyd Jones